

---

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod tenantiaid a phreswylwyr yn ymwybodol o'u hawliau yn y gymuned leol a'u cynorthwyo i gynrychioli eu buddiannau.

---

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cefnogi hawliau tenantiaid a phreswylwyr yn y gymuned leol yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol perthnasol
2. cadarnhau bod tenantiaid a phreswylwyr yn ymwybodol o'u hawliau eu hunain a sut gellir eu cynrychioli
3. nodi a rhoi mesurau ar waith i gynorthwyo'r holl denantiaid a phreswylwyr i gynrychioli eu buddiannau
4. nodi ffynonellau cymorth a chynrychiolaeth ar gyfer tenantiaid a phreswylwyr
5. cael cyngor os oes angen gan gydweithwyr a sefydliadau perthnasol ynghylch gofynion penodol tenantiaid a phreswylwyr
6. rhoi cymorth sy'n seiliedig ar ofynion unigol tenantiaid a phreswylwyr
7. rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r tenantiaid a'r preswylwyr i'w helpu i gynrychioli eu buddiannau eu hunain
8. cynnig cymorth i'r tenantiaid a'r preswylwyr a'u helpu i gynrychioli eu buddiannau eu hunain ac ymarfer eu hawliau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion sefydliadol a chyfreithiol perthnasol sy'n gysylltiedig â chefnogi hawliau tenantiaid a phreswylwyr
2. terfynau eich cyfrifoldeb dros gefnogi hawliau tenantiaid a phreswylwyr
3. y gwahanol ddulliau o gefnogi hawliau tenantiaid a phreswylwyr yn y gymuned
4. y sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth ar hawliau tenantiaid a phreswylwyr
5. y mathau o ddulliau cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â hawliau cyfreithiol a phersonol perthnasol
6. y ffynonellau perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth ar hawliau a sut gall tenantiaid a phreswylwyr gael mynediad atynt
7. pan mae'n ofynnol i eiriolwr/cynrychiolydd roi cymorth a chyngor cyfreithiol i denantiaid a phreswylwyr

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills CFA
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	29 Maw 2019
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	06 Ion 2024
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Instructus
<b>RCU gwreiddiol</b>	ASTH226
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio
<b>Cyfes/Set</b>	Tai
<b>Geiriau Allweddol</b>	tenantiaid a phreswylwyr; cydweithwyr; risg; diogelwch; cymuned leol; cymorth; agored i niwed; deddfwriaeth; dogfennaeth; ymholiadau; trefnu; hawliau; buddiannau